# CYNGOR CYMUNED PENTREFOELAS COMMUNITY COUNCIL

**Cadeirydd: Gari B Jones**

Nos Fawrth Chwefror 4ydd 2025 am 7.30 y.h

## Cofnodion (120)

1. **Ymddiheuriadau:** Cyng. Alun Owen, Gethin Pyrs
2. **Presennol:** Cyng. Gari B Jones, Gerallt Jones, Edmund Rees, Gwynfor H Roberts, Cyng. Sirol Gwennol Elis ac Enid Williams (Clerc)
3. **Còd Ymddygiad:** Datgan Cysylltiad neu ddiddordeb personol mewn un neu fwy o eitemau'r Agenda – GHR yn datgan diddordeb yn eitem 4.1.1. – gadawodd y cyfarfod tra'n trafod y mater.
4. **Cofnodion mis Ionawr:** Derbyniwyd y Cofnodion fel rhai cywir gan ER yn cynnig gyda GBJ yn eilio
5. **Materion yn Codi o'r Cofnodion:**
   5.1.1. Cyfarfod Cyngor Conwy (Maes Parcio a 'Sgubor Rin) – cadarnhawyd bod Cyngor Conwy yn bwriadu rhoi cyfle ar y gwerthiant o'r asedau i drigolion lleol sydd â diddordeb yn gyntaf. Roedd hun fel tegwch i bawb.
   5.1.2. Yswiriant – cytunwyd codi gwerth y lloches bws i £25,000 ar ddau diffib i £1,900 yn un.
6. **Gohebiaeth:**
   6.1.1. Llythyr Dafydd Roberts, Brodwaith – darllenwyd y llythyr allan, erbyn hun wedi ymateb i'r e-bost hefyd (gweler eitem 5.1.1.)
7. **Ffurflen Monitro:**
   Edrychwyd dros y gyllideb a chafwyd popeth mewn trefn.
8. **Mantolen Banc:**
   Edrychwyd dros y fantolen, hyd yma mae popeth mewn trefn.
9. **Cyllideb 2025-26:**
   Wedi ail osod y gyllideb a'i derbyn fel un gyflawn.
10. **Cofrestr Asedau:**
    a) Pris ar gyfer Lloches bysiau £25,000.
    b) Pris ar gyfer 2 diffib £1,900 yr un.
13. **Gair gan y Cyng. Sirol Gwennol Ellis** '*Grid gwartheg ar Ffordd Nebo – wedi cau'r ffordd fel achos brys ar 8.1.25.Yn dal i aros am ddiweddariad ynglŷn a'i atgyweirio. Yn caniatáu i geir 'lleol' fynd trwy'r giât ond yn anaddas i gerbydau trwm.*
    *Cyfarfod cyhoeddus am sefyllfa'r Iaith Gymraeg yn Uwchaled 19.2.25 gan Menter Iaith Conwy. Cyllideb y Cyngor – Bydd yn rhaid i bob adran o'r Cyngor rannu'r faich. Pleidleisio ar y Gyllideb 27.2.25 – Cyngor Llawn.*
    *Toiledau Pentrefoelas – pan fydd yn dod gerbron y Cabinet, bydd y Cynghorydd Dilwyn yn siarad i gefnogi'r gwerthiant i Grŵp Lles Pentrefoelas – bydd yn rhaid i mi ddatgan diddordeb gan fy mod yn un o'r cyfarwyddwyr. Bydd yr Astudiaeth Dichonoldeb o gomisiynwyd gan y Cyngor Cymuned yn 2024 yn greiddiol i gefnogi ceisiadau grant a wneir i ddatblygu'r toiledau er budd y gymuned ac ar gyfer cefnogi unrhyw grant arall yng Nghymuned Pentrefoelas.*
14. **Unrhyw fater arall:**
    14.1.1. Dau dwll yn y ffordd wrth Gae'r Abad.
15. **Dyddiad y cyfarfod nesaf** – nos Fawrth Mawrth 4ydd 2025 am 7.30 y.h

**Arwyddwyd**________________________________ **Dyddiad** 04.03.25

Cadeirydd